



Pecyn Swydd

Rheolwr Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

This document is also available in English.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

uchelgaigogledd.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Am y swydd	4
Swydd Ddisgrifiad	5
Manylion Person	8
Ein Gwerthoedd	9
Ymunwch a'r Tîm	10
Amserlen Recriwtio	11
Gweithio i ni	12
Buddion	13

Am fwy o wybodaeth am y swydd,
cysylltwch â:



Alwen Williams
Prif Weithredwr

swyddi@uchelgaisgogledd.cymru

Amser cyffrous i ymuno â'r tîm

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â thîm Uchelgais Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy'n falch o fod yn rhan o ddatblygu economi Gogledd Cymru.

Fel Cyd-Bwyllgor Corfforedig mae ganddo ni ddyletswyddau statudol dros y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Stratgeol, ochr yn ochr a dyletswydd anstatudol dros Les Economaidd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru, Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam ynghyd a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth gref, sy'n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni yn erbyn gweledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd i'r dyfodol. Sefydlwyd Tîm Uchelgais Gogledd Cymru yn wreiddiol i gyflawni'r Cynllun Twf, a bellach mae y cylch gwaith ehangach gan fod yn Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Mae'r tîm yn cefnogi uchelgeisiau rhanbarthol ar gyfer economi gryfach, mwy gwydn a chynaliadwy yn y dyfodol.

Ein huchelgais wrth symud ymlaen yw denu buddsoddiad i Ogledd Cymru a chyflawni dyfodol mwy llewyrchus i bawb sy'n byw ac yn gweithio yma. Ein nod yw i greu swyddi newydd â chyflogau uchel, denu buddsoddiad ac yn y pen draw yn adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn ein cymunedau, ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm ac wedi datblygu set o werthoedd sy'n ategu sut rydym yn gweithio a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn gwneud fel y dywedwn ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwych i Ogledd Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried gwneud cais am y swydd hon a gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith.



Cyng. Mark Pritchard

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor
Corfforedig y Gogledd



Alwen Williams

Prif Weithredwr Uchelgais
Gogledd Cymru


Am y swydd

Rheolwr Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

Fel Rheolwr Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol, byddwch yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer paratoi a chyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol, gan sicrhau ei fod yn cefnogi gweledigaeth economaidd y rhanbarth ac yn cyd-fynd â strategaethau trafnidiaeth, buddsoddi ac economaidd ehangach. Byddwch yn rheoli rhaglen Cytundeb Cyflawni SDP, yn cydlynu'r sylfaen dystiolaeth ranbarthol, yn comisiynu ac yn goruchwyllo cymorth arbenigol, ac yn darparu cyngor cynllunio arbenigol i Uchelgais Gogledd Cymru a'i bartneriaid.

Byddwch yn arwain tîm bach sy'n perfformio'n uchel ac yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Aelodau etholedig, rhanbarthau cyfagos a rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol eraill. Mae'r rôl yn gofyn am gyfathrebwr hyderus sy'n gallu adeiladu partneriaethau dibynadwy, dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ac arwain rhaglenni cymhleth trwy lywodraethu, ymgynghori a chyflawni effeithiol.

Rydym yn chwilio am weithiwr cynllunio proffesiynol profiadol gydag arbenigedd sylweddol mewn cynllunio polisi a pharatoi cynlluniau datblygu, sgiliau rheoli rhaglenni a rhanddeiliaid cryf, a dealltwriaeth gadarn o ranbarth Gogledd Cymru. Mae aelodaeth broffesiynol yn ddymunol. Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a pharodrwydd i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn hanfodol.



Swydd Ddisgrifiad

Pwrrpas y swydd

- Arweinyddiaeth strategol o'r ddyletswydd statudol i ddatblygu, paratoi a chyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP) ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd yn unol â gweledigaeth y rhanbarth ar gyfer Lles Economaidd.
- Rheoli'r rhaglen Cytundeb Cyflawni SDP a sicrhau bod ei allbynnau a'i gofynion adrodd yn cael eu cydlynu, eu monitro a'u cyflawni yn ôl yr amserlen ragnodedig ar ran y Cyd-bwyllgor.
- Cydlynu integreiddio cynlluniau a strategaethau'r Cyd-bwyllgor a rhanbarthol eraill gyda'r SDP.
- Cefnogi sefydlu a gweithrediad effeithiol y tîm Cynllunio Strategol a darparu cyngor a chefnogaeth gynllunio arbenigol i swyddogaethau a rhaglenni ehangach Uchelgais Gogledd Cymru.

Core Team Responsibilities

- » Cyfrifol am ymgorffori a sicrhau bod staff gyda thimau yn ymgorffori gwerthoedd ac ymddygiadau Uchelgais Gogledd Cymru.
- » Cyfrifol am gefnogi cydweithwyr ac aelodau'r tîm i gyflawni blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru ac am gefnogi eu datblygiad.
- » Rheolaeth matrices o staff ac adnoddau ar draws y Cydbwyllgor Corfforedig yn ôl yr angen i gyflawni blaenoriaethau.
- » Gweithredu fel llysgennad i Uchelgais Gogledd Cymru a'r rhanbarth.

Cyflog: £61,961 - £65,361

Oriau: Hyd at 37 awr yr wythnos*

Cytundeb: Parhaol

Lleoliad: Cyffordd Llandudno (hybrid gyda gweithio o gartref)

*Mae'r swydd yn llawn amser, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gweithio'n hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd cywir



Cyfrifoldebau Penodol i'r Rôl

1. Cynllun Datblygu Strategol

- Arwain, cefnogi a rheoli perfformiad tîm swyddogion y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) (gan gynnwys hyd at ddwy swydd sy'n atebol yn uniongyrchol) fel bod gweithgarwch y CDS yn cael ei gyflwyno ar amser, i ansawdd a chyda pherchnogaeth glir o'r camau gweithredu.
- Comisiynu, caffael a rheoli ymgynghorwyr a chyflenwyr trydydd parti i ddarparu mewnbwn arbenigol, sicrhau'r deilliannau a gwerth am arian, a sicrhau bod gweithgarwch yn parhau i gydymffurfio â rheoliadau caffael cyhoeddus ac arfer gorau.
- Rheoli a monitro grant datblygu'r CDS gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau rheolaeth gadarn ar y gyllideb, cydymffurfiaeth ag amodau'r grant, ac adrodd amserol a chywir.
- Arwain gwaith cydlynu, datblygu, cyflawni a monitro parhaus y Cynllun Datblygu Strategol fel bod gan y Cyd-bwyllgor gynllun clir, wedi'i arwain gan dystiolaeth y gellir ei gyflawni ac sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Datblygu a chynnal Cytundeb Cyflawni'r CDS, gan gynnwys cerrig milltir, risgiau a dibyniaethau, i ddarparu llwybr clir ar gyfer cyflawni a sicrwydd.
- Goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu sail dystiolaeth i gefnogi'r broses o gynhyrchu a gwneud penderfyniadau'r CDS.
- Datblygu a gweithredu dull o gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y CDS gydag Aelodau, swyddogion a rhan-ddeiliaid allanol fel bod negeseuon yn glir, yn gyson ac yn cefnogi ymgynghori effeithiol.
- Gweithredu fel y rhyngwyneb rhanbarthol ar gyfer yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, gan weithio gydag Aelodau sy'n Ddeiliaid Portffolio a Swyddogion Cynllunio Lleol i gynnal momentwm a sicrhau cyfeiriad a phenderfyniadau amserol.
- Sicrhau aliniad strategol rhwng y CDS, y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gweithgareddau Llesiant Economaidd a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol eraill fel bod cynlluniau a rhaglenni yn gydlynol ac yn atgyfnerthu ei gilydd.
- Cynnal cydymffurfiaeth a llywodraethu da trwy weithio gyda swyddogion statudol y Cyd-bwyllgor (Prif Swyddog Gweithredol, Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151) yn ôl yr angen, i sicrhau bod gofynion cyfreithiol, gweithdrefnol a pholisi yn cael eu bodloni a bod risgiau yn cael eu huchafu'n briodol.
- Cydlynu'r broses o baratoi adroddiadau ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ei is-bwyllgorau, Llywodraeth Cymru, partneriaid a rhan-ddeiliaid er mwyn cyfathrebu'n glir am berfformiad, cynnydd a materion a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol.
- Darparu cyngor a chefnogaeth am gynllunio ar draws y Cyd-bwyllgor, gan gynnwys i brosiectau penodol o fewn rhaglenni er mwyn adnabod ystyriaethau cynllunio yn gynnar a chefnogi'r broses o gyflawni.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill, sy'n gymesur â lefel y swydd, i gefnogi cyflawni blaenoriaethau sefydliadol.

2. Llywodraethu, Atebolrwydd a Chydymffurfio

- Cynnal dibynadwydd a chydymffurfiaeth a llywodraethu da trwy weithio gyda swyddogion statudol y Cyd-bwyllgor (Prif Swyddog Gweithredol, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151) yn ôl yr angen, i sicrhau bod gofynion cyfreithiol, gweithdrefnol a pholisi yn cael eu bodloni a bod risgiau yn cael eu huchafu'n briodol.
- Cydlynu'r broses o baratoi adroddiadau ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ei is-bwyllgorau, Llywodraeth Cymru, partneriaid a rhanddeiliaid er mwyn cyfathrebu'n glir am berfformiad, cynnydd a materion, a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau yn effeithiol.
- Gweithredu fel arbenigwr a chynghorydd dibynadwy wrth ddarparu cyngor a chymorth cynllunio ar draws y Cyd-bwyllgor, gan gynnwys i brosiectau penodol o fewn rhaglenni er mwyn adnabod ystyriaethau cynllunio yn gynnar a chefnogi'r broses o gyflawni.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r rôl i gefnogi cyflawni blaenoriaethau sefydliadol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisi a deddfwriaeth megis Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru, y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ynghyd â deddfau, rheoliadau a chanllawiau cynllunio perthnasol.
- Gweithio'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys gofynion y Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol) a threfniadau llywodraethu rhanbarthol y cytunwyd arnynt.
- Ymdrin â gwybodaeth yn ddiogel ac yn unol â gofynion diogelu data, cyfrinachedd a llywodraethu gwybodaeth.
- Gweithio yn unol â pholisiau sefydliadol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a diogelu (pan fo'n berthnasol).

Cyfrifoldebau Penodol i'r Rôl

3. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Phartneriaid

- Datblygu a gweithredu dull o gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer yr SDP gydag Aelodau, swyddogion a rhanddeiliaid allanol fel bod negeseuon yn glir, yn gyson ac yn cefnogi ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol.
- Adeiladu a chynnal perthnasau cryf a strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol cyfagos, Awdurdodau Cyfunol, a rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol eraill gan gynnwys darparwyr isadeiledd.
- Gweithredu fel yr uwch bwynt cyswllt ar gyfer rhanddeiliaid allanol sy'n ymgysylltu â'r Is-bwyllgor Cynllunio Strategol, gan sicrhau cyfathrebu ac ymgysylltu cydgysylltiedig ar draws awdurdodau lleol, ymgynghoreion statudol, rhanddeiliaid allweddol, busnesau a chymunedau.
- Gweithredu fel eiriolwr dros Uchelgais Gogledd Cymru, y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'r rhanbarth, gan ddatblygu, rheoli a chynnal perthnasoedd allanol effeithiol ar bob lefel.

4. Arweinyddiaeth Pobl ac Adnoddau

- Fel rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth, darparu arweinyddiaeth glir, weladwy sy'n cefnogi datblygiad diwylliant tîm llawn cymhelliant sy'n perfformio'n dda.
- Arwain a modelu rôl gwerthoedd ac ymddygiadau Uchelgais Gogledd Cymru, gan feithrin diwylliant o gydweithio, uniondeb a rhagoriaeth.
- Cefnogi a datblygu staff o fewn y tîm trwy reoli llinell a matrices effeithiol, gan gyfrannu at arweinyddiaeth ehangach y sefydliad.
- Yn gyfrifol am reoli, monitro a dyrannu cyllid cyfalaf a refeniw yn effeithiol trwy'r SDP a ffrydiau ariannu perthnasol eraill, gan gynnwys sicrhau bod systemau a phrosesau effeithiol ar waith ar gyfer rheolaeth ariannol.

5. Dyletswyddau Ychwanegol

- Ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau eraill sy'n gymesur â lefel y rôl i gefnogi a lle bo angen dirprwyo ar gyfer y Prif Weithredwr a'r tîm Arweinyddiaeth ehangach wrth gyflawni blaenoriaethau sefydliadol a rhanbarthol.

Manylion Person

Cymwysterau

- Cymhwyster perthnasol i lefel gradd neu brofiad proffesiynol cyfwerth.
- Aelodaeth broffesiynol e.e. Aelod o'r Transport Planning Society (TPS) neu achrediad gan y Royal Town Planning Institute (RTPI), Chartered Town Planner (MRTPI), Aelodaeth Gysylltiol o'r Royal Town Planning Institute (AMRTPI), Aelod o'r Royal Institution of Chartered Surveyors (MRICS).
- Cymhwyster rheoli neu barodrwydd i gyflawni.

Profiad, Gwybodaeth a Sgiliau

- Sgiliau arweinyddiaeth, rhyngbersonol a chyfathrebu effeithiol, gan gynnwys y gallu i ysgogi ac ysbrydoli eraill i gydweithio a gweithredu.
- Profiad sylweddol o arwain ar baratoi cynllun datblygu, llunio polisi cynllunio, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymgynghoriad cyhoeddus, ac Arholiadau Cyhoeddus.
- Dealltwriaeth o ranbarth gogledd Cymru, gan gynnwys dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd cynllunio, trafnidiaeth ac economaidd yn ogystal â gwybodaeth am bolisiau a rheoliadau cenedlaethol sy'n effeithio ar feysydd perthnasol y sector.
- Digon o hynafiaeth a hygyrdded i gynghori, negodi a dylanwadu ar yr holl bartïon â diddordeb a phenderfynwyr mewn perthynas â chynnwys a chyfiawnhad yr SDP, gan gynnwys sicrhau cymeradwyaethau o fewn trefniadau llywodraethu cymhleth.
- Profiad ac ymwybyddiaeth sylweddol o weithio gydag Aelodau Etholedig a delio â materion gwleidyddol sensitif.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol gyda'r gallu i ysgrifennu a chynhyrchu adroddiadau clir a chryno.
- Sgiliau cyfathrebu llafar rhagorol gyda grwpiau amrywiol o bobl, a'r gallu i roi cyflwyniadau yn hyderus.
- Profiad o reoli rhaglenni a phrosiectau gan gynnwys rheoli risgiau a dibyniaethau.
- Gwybodaeth ymarferol o ddulliau caffael, a chontractau a gwybodaeth waith gadarn o'r broses gaffael a'r arfer gorau.

Gofynion Iaith

Ar gyfer y rôl hon mae'r gofynion canlynol yn DDYMUNOL:

- Gwrando a Siarad - gallu ymdrin â phob agwedd ar y swydd ar lafar mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Darllen a Deall - gallu defnyddio a dehongli'n gywir unrhyw wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg o amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn ymdrin â phob agwedd ar y swydd.
- Ysgrifennu - gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl hyderus gan ddefnyddio'r iaith a'r arddull fwyaf priodol i ddiwallu anghenion y darllenydd.
- Hefyd, mae'r gofyniad canlynol yn hanfodol:
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg i'r rhanbarth a pharodrwydd i ddatblygu a gwella eu sgiliau Cymraeg

Ein Gwerthoedd



Rydym yn Uchelgeisiol

Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.



Rydym yn gweithio ar y cyd

Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.



Rydym yn gwneud y peth iawn

Rydym ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd. Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymadau y cytunwyd arnynt ar amser.



Rydym yn gwneud gwahaniaeth

Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hól troed.

Ymddygiadau craidd i bob rôl

- Arweinyddiaeth - rydym oll yn arwain drwy esiampl ac rydym i gyd yn arweinwyr yn ein meysydd ein hunain.
- Cyfrifoldeb - rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith, ein perfformiad a'n datblygiad.
- Parch - rydym yn parchu ein cydweithwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ac yn arddangos hyn drwy ein gwaith ac yn y ffordd yr ydym yn adeiladu perthnasau effeithiol.



Ymunwch a'n tîm

A oes gennych chi angerdd dros Ogledd Cymru ac awydd i weld y rhanbarth yn tyfu ac yn cyflawni ei botensial? Ydych chi'n frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn chwaraewr tîm?

Os felly, fe allech chi fod y person rydyn ni'n chwilio am i ymuno â'n tîm.

Fel partneriaeth mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn graidd i'r hyn ydym yn ei wneud fel tîm. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â sgiliau rhyngbersonol rhagorol, sy'n frwd dros weithredu i'r rhanbarth ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar draws partneriaid i yrru'r prosiectau yn eu blaenau.

Er bod gan bob rôl o fewn y tîm ei ffocws ei hun, bydd disgwyl i chi gyfrannu at waith ehangach y tîm a llwyddiant y tîm cyfan. Rydym yn chwilio am chwaraewyr tîm sy'n gallu arwain eu meysydd eu hunain ond hefyd yn cefnogi eu cydweithwyr i gyflawni. Yn gyfnewid am hyn, fe welwch lwyth gwaith amrywiol a diddorol gyda chyfleoedd i gyfrannu ar draws ein portffolio.

Mae datblygiad proffesiynol a phersonol yn bwysig i ni. Bydd y tîm yn Uchelgais Gogledd Cymru yn rhoi amgylchedd gefnogol i chi barhau â'ch datblygiad gyda nifer o gyfleoedd datblygu ffurfiol ac anffurfiol ar gael. Rydym yn annog ein tîm i ddilyn cyfleoedd datblygu proffesiynol ac rydym yn chwilio am unigolion sydd â'r awydd i ddysgu a gwella.

Mae rhai o'n rolau yn gofyn am sgiliau Cymraeg, fodd bynnag, rydym yn chwilio am unigolion sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, sydd ag empathi at y diwylliant Cymreig ac sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau ieithyddol. Os yw hyn yn swnio fel chi, edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Mae Gogledd Cymru yn lle ardderchog i fyw a gweithio, beth am chwarae rhan allweddol wrth lunio ei ddyfodol?

Hedd Vaughan-Evans
Cyfarwyddwr Portffolio
Uchelgais Gogledd Cymru



Amserlen Recriwtio



Dyddiad cau

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn

10yb

16/10/2026



Rhestr Fer

Byddwn yn anelu i gysylltu gyda y rhai sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad yma gyda manylion dyddiadau yr asesiadau a'r cyfweiliad.

erbyn

22/10/2026



Asesiadau

Bydd asesiadau yn cymryd lle cyn y cyfweiliad. Byddwch yn derbyn y manylion os ar y rhestr fer.

erbyn

29/10/2026



Cyfweiliadau

Bydd union ddyddiad/amser yn cael ei gadarnhau ar lunio y rhestr fer.

3/11/2026

Y Broses Ymgeisio



Dilynwch y linc [yma](#) i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.



Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.



Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb personol. Cofiwch sicrhau fod eich datganiad personol yn cyfarch yr holl ofynion hanfodol sydd wedi ei gosod allan yn y manylion person.



Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, bydd manylion y cyfweiliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.



Byddwn yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau tasg cyn y cyfweiliad (bydd manylion llawn yn cael eu cynnwys yn y llythyr cyfweiliad).



Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried

Y Cyflogwr

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yd'r awdurdod cyflogi.



Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn endidau llywodraeth leol corfforaethol, rhanbarthol newydd sydd â phwerau, dyletswyddau, llywodraethiant a strwythurau gweinyddol tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru.



Sefydlwyd pedwar CBC yng Nghymru ar 1af o Ebrill 2021, yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol y gofynnwyd amdanynt gan lywodraeth leol, ac yn adlewyrchu trefniadau cydweithio Rhanbarthol oedd yn bodoli eisoes. Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru – Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn cael ei adnabod o dan y brand Uchelgais Gogledd Cymru.



Ar hyn o bryd mae gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig dri maes mae'n canolbwyntio arnynt – cynllunio strategol, trafnidiaeth strategol a llesiant economaidd.

Buddion

Mae nifer o fuddion o weithio i Uchelgais Gogledd Cymru, mae manylion llawn ar gael yma. Dyma grynodedb o'r prif fuddion:



Cynllun Pensiwr

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd



Gwyliau Blyneddol

Mae gan weithwyr yr hawl i rhwng 21 a 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar raddfa'r swydd. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 ½ diwrnod arall



Absenoldebau Arbennig

Yn ogystal â'r gwyliau uchod, gellir caniatáu absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig megis symud tŷ, profedigaeth, mynychu apwyntiadau meddygol, ymgymryd a dyletswyddau cyhoeddus



Cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu gweithwyr i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gall gweithiwr fanteisio o'r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau ystwyth
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr
- Gweithio'n hyblyg



Hyfforddiant a Datblygiad

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



uchelgaigogledd.cymru
swyddi@uchelgaigogledd.cymru